

# SL(6)103 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021

## Cefndir a Diben

Mae [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) \(Rhif 17\) 2021](#) ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, a'r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe wneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A er mwyn ychwanegu Nigeria at y rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae rheoliad 12E yn gymwys iddynt.

Bydd hyn yn golygu na fyddai teithwyr o'r gyrchfan honno yn cael caniatâd i ddod i mewn i Gymru ond bod yn rhaid iddynt gyrraedd drwy borth mynediad yn Lloegr neu'r Alban a mynd i gyfleuster cwarantîn wedi'i reoli, a chymryd profion PCR ar ôl cyrraedd ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 5 Rhagfyr 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; oherwydd y dystiolaeth newidiol ar risg mewn perthynas â'r afiechyd hwn ystyrir bod hyn yn angenrheidiol a bod modd ei gyfiawnhau yn yr achos hwn."*

Nodwn ymhellach yr esboniad a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd bod y nifer cynyddol o achosion amrywiolion Omicron COVID-19 yn cael eu canfod yn Nigeria, ac yng ngoleuni nifer y teithwyr sy'n teithio rhwng y wlad honno a'r DU, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol trwy ychwanegu Nigeria at y rhestr goch."*

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

### **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*



## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**